Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Codi tâl am arddangosfeydd

Mehefin 2025

## 1. Y cefndir

**1.** Yn dilyn gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft yn 2024, dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor:

> *"...Fel pob un o'n cyrff hyd braich Diwylliannol, mae Amgueddfa Cymru yn archwilio'r holl gyfleoedd sydd ar gael i godi arian ac opsiynau ar gyfer cynhyrchu incwm pellach. Mae hyn yn cynnwys edrych ar ystod o opsiynau posibl ar gyfer codi tâl yn y dyfodol, a dim ond un ohonynt yw codi tâl mynediad yn y tymor hir i rai ohonynt, neu'r cyfan".*[1]

**2.** Gwnaethom gytuno i archwilio goblygiadau'r datganiad hwn yng nghyd-destun polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru o fynediad am ddim i'r amgueddfeydd cenedlaethol, a gyflwynwyd yn 2001. Gwnaethom hefyd benderfynu archwilio'r posibilrwydd o godi tâl i gyfrannu'n ystyrlon at incwm amgueddfeydd ac orielau. Mae hyn yn dilyn toriadau refeniw Llywodraeth Cymru i'r meysydd hyn yng Nghyllideb 2024-25, a datganiadau dro ar ôl tro gan Lywodraeth Cymru y dylai cyrff diwylliannol gynyddu eu hincwm o ffynonellau heblaw'r llywodraeth.[2]

**3.** Gwnaethom ystyried materion fel:

- y cyfraniad y gall codi tâl ei wneud at gynhyrchu incwm;

---

[1] Llythyr gan Weinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 29 Ionawr 2024

[2] Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Cyllideb i Ddiogelu'r Gwasanaethausydd Bwysicaf i Chi - Rhagfyr 2023, paragraff 141

- effaith codi tâl ar amrywiaeth cynulleidfaoedd;
- effaith codi tâl ar brofiadau ymwelwyr;
- a ddylai codi tâl gael ei anelu at grwpiau penodol, a sut gellid gwneud hynny; ac
- cymorth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer arddangosfeydd dros dro.

**4.** Ar hyn o bryd, Amgueddfa Cymru yw'r unig sefydliad cenedlaethol sy'n codi tâl am fynediad i rai arddangosfeydd. Roeddem yn awyddus i glywed gan gyrff diwylliannol eraill, fel y Llyfrgell Genedlaethol ac amgueddfeydd ac orielau annibynnol, er mwyn elwa o'u mewnwelediadau a chlywed am unrhyw gynlluniau oedd ganddynt yn y maes hwn.

**5.** Roedd ein gwaith yn canolbwyntio ar godi tâl am arddangosfeydd, yn hytrach na'r ystod o weithgareddau masnachol eraill y mae amgueddfeydd ac orielau yn eu gwneud. Mae hyn oherwydd nad yw'r gweithgareddau eraill hyn, fel manwerthu, caffis a llogi masnachol, yn effeithio ar fynediad y cyhoedd at ddiwylliant mewn ffordd mor uniongyrchol â ffioedd ar gyfer arddangosfeydd. Buom hefyd yn ystyried y mater o Amgueddfa Cymru yn codi tâl am deithiau o dan y ddaear yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru ("Big Pit"). Er nad yw'r daith o dan y ddaear yn arddangosfa ffurfiol, mae codi tâl am y daith yn codi materion tebyg am fynediad at ddiwylliant â'r rhai a godwyd gan arddangosfeydd y codir tâl amdanynt.

## Casglu tystiolaeth

**6.** Ar 6 Mehefin 2024, gwnaethom ymweld ag Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a chynnal sesiwn dystiolaeth yn y Senedd yn edrych ar godi tâl am arddangosfeydd. Y tystion ar gyfer y sesiwn hon oedd:

- Dr Mark O'Neill, cyn Bennaeth Amgueddfeydd Glasgow;
- Lisa Ollerhead, Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol;
- Nia Elias, Amgueddfa Cymru;
- Rhodri Llwyd Morgan, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

**7.** Cawsom dystiolaeth ysgrifenedig ddilynol gan y tystion hefyd.[3]

**8.** Ar 13 Mawrth 2025, gwnaethom ymweld â Big Pit ym Mlaenafon i weld y safle, profi'r daith o dan y ddaear, ac ymgysylltu â'r staff. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr yr amser a'r mewnwelediadau a rannwyd gan y staff y gwnaethom gyfarfod â nhw: mae eu gwybodaeth a'u brwdfrydedd yn ased i Amgueddfa Cymru.

**9.** Trafododd y Pwyllgor godi tâl am arddangosfeydd, a chynnig yr Amgueddfa Cymru's i godi tâl am y daith o dan y ddaear yn Big Pit gyda Jack Sargeant AS, y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol. Cynhaliwyd y trafodaethau hyn mewn cyfarfodydd ar 13 Tachwedd 2024 a 28 Tachwedd 2024, ac mewn gohebiaeth.

**10.** Rydym yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at ein hymchwiliad.

## Cyd-destun cyllido a sylwadau blaenorol gan Lywodraeth Cymru

**11.** Rhwng 2023-24 a 2024-25, torrodd Llywodraeth Cymru gyllideb refeniw Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol 6 y cant, a ddisgrifiwyd gan Amgueddfa Cymru fel y toriadau mwyaf erioed i gyllideb Amgueddfa Cymru.[4]

**12.** Ym mis Ebrill 2024, dywedodd Amgueddfa Cymru ei bod yn disgwyl i tua 90 o aelodau o staff (allan o 600) gymryd diswyddiad gwirfoddol. Dywedodd Prif Weithredwr Amgueddfa Cymru, Jane Richardson, y byddai'r amgueddfeydd hefyd yn codi tâl ar ymwelwyr am ddigwyddiadau arbennig fel teithiau ac arddangosfeydd, ac yn cau yn gynharach yn y gaeaf.[5]

**13.** Mae lefelau hanesyddol o gyllid ar gyfer y sector diwylliant wedi'u dogfennu yn ein hadroddiad diweddar, Degawd o doriadau: Effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon.[6] Dangosodd hyn, yn ôl ffigurau Llywodraeth Cymru ei hun, fod cyllid refeniw ar gyfer diwylliant a chwaraeon wedi gostwng 17 y cant mewn termau real dros ddegawd. Dangosodd gwaith dadansoddi gan Ymchwil y

---

[3] Llythyr gan Gymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 28 Mehefin 2024, Llythyr gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 4 Gorffennaf 2024

[4] Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Cyllideb i Ddiogelu'r Gwasanaethau sydd Bwysicaf i Chi - Rhagfyr 2023

[5] Amgueddfa Cymru: At least 90 jobs cut and Cardiff building may close - BBC News, 14 April 2024

[6] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Degawd o doriadau: Effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon - Ionawr 2025

Senedd fod cyllid cyhoeddus ar gyfer diwylliant a chwaraeon yng Nghymru bellach wedi gostwng i'r graddau ei fod ymhlith yr isaf yn Ewrop.

**14.** Yn dilyn y toriadau yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25, dywedodd Llywodraeth Cymru y bydd "angen i gyrff diwylliant archwilio ffynonellau incwm eraill" i ymdopi â phwysau chwyddiant.[7]

**15.** Dywedodd Dawn Bowden AS, y Dirprwy Weinidog Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth ar y pryd, wrthym ym mis Ebrill 2024 fod codi tâl am fynediad i Amgueddfa Cymru dan ystyriaeth oherwydd y sefyllfa ddifrifol ynglŷn â'r gyllideb. Pwysleisiodd y canlynol:

> *"I'm not saying that that's where we will end up, but it would not be responsible of me to rule that out at this stage or to suggest to the museum that they shouldn't be exploring that."*[8]

**16.** Dywedodd Lesley Griffiths AS, Ysgrifennydd dilynol y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, wrth y Senedd ar 17 Ebrill 2024:

> *"Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i beidio â chodi tâl mynediad i'n hamgueddfeydd. Fel rwy'n dweud, cefais drafodaeth fer iawn gyda'r prif weithredwr ynghylch hynny ddoe, ac fe'm sicrhaodd mai dyna oedd y farn o hyd. Rwy'n cytuno'n llwyr. Os ydym am ehangu cyfranogiad yn ein hadeiladau eiconig ac yn ein hamgueddfeydd, mae'n bwysig iawn nad oes tâl."*[9]

**17.** Pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26 ym mis Rhagfyr 2024, gwelwyd ei bod wedi gwrthdroi llawer o'r toriadau ym maes diwylliant a chwaraeon a wnaed yng Nghyllideb 2023-24.[10] Fodd bynnag, nid oeddem "wedi ein hargyhoeddi eto bod y dyraniadau'n ddigonol i wella'r sefyllfa'n sylweddol".[11] Roedd chwyddiant wedi dileu'r holl godiadau bach a welwyd ers 2023-24, ac roedd sefydliadau'n wynebu costau uwch eraill, gan gynnwys eu

---

[7] Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Cyllideb i Ddiogelu'r Gwasanaethau sydd Bwysicaf i Chi - Rhagfyr 2023, paragraff 141
[8] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 17 Ionawr 2024, paragraff 154
[9] Cofnod y Trafodion: Cyfarfod Llawn - 17 Ebrill 2024, paragraff 183
[10] Llywodraeth Cymru: Cynigion Cyllideb Ddrafft Manwl ar gyfer 2025-26 – Rhagfyr 2024
[11] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26 – Chwefror 2025', paragraff 30

cyfraniadau i brosiectau newydd Llywodraeth Cymru fel yr Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol.

**18.** Yn y Gyllideb Derfynol, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2025, cafwyd cynnydd refeniw ychwanegol o £4.6 miliwn ar gyfer diwylliant a chwaraeon.[12] Golyga hyn fod y cynnydd yn y meysydd hyn rhwng 2023-24 a 2025-26 tua 1 y cant mewn termau real. Mae'r cyllid refeniw ar gyfer Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol, ac eithrio cyllid nad yw'n arian parod, bellach ar lefelau 2023-24 mewn termau arian parod.[13] Felly, mae'r holl gyrff hyn wedi gweld toriad termau real mewn refeniw (ac eithrio arian nad yw'n arian parod) o oddeutu 2 y cant rhwng 2023-24 a 2025-26.

[12] Llywodraeth Cymru: Dyraniadau prif grŵp gwariant y Gyllideb Derfynol - Chwefror 2025
[13] Mae dyraniadau nad ydynt yn arian parod wedi'u neilltuo ac ni ellir eu defnyddio i ariannu gwariant o ddydd i ddydd (gallant gynnwys eitemau fel dibrisiant).

# 2. Mynediad am ddim

**19.** Ym 1997, fe wnaeth Llywodraeth Lafur y Deyrnas Unedig ymrwymiad i adfer mynediad am ddim i amgueddfeydd cenedlaethol. Cytunodd yr amgueddfeydd cenedlaethol a oedd wedi mabwysiadu taliadau mynediad i'w gollwng yn gyfnewid am arian ychwanegol gan y llywodraeth i wneud iawn am incwm a gollwyd o werthu tocynnau. Fe wnaethon nhw barhau i godi tâl am arddangosfeydd arbennig. Cytunodd y gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban i ariannu mynediad am ddim yn yr amgueddfeydd cenedlaethol y maent yn eu cefnogi, a chyflwynwyd mynediad am ddim i bawb yn eu holl safleoedd ym mis Ebrill 2001.[14]

**20.** Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad o Amgueddfa Cymru gan Dr Simon Thurley. Eglurodd hyn, ers dechrau mynediad am ddim yn 2001, fod nifer yr ymwelwyr ar draws saith safle Amgueddfa Cymru wedi "mwy na dyblu", er bod y cynnydd hwn yn ymwelwyr sy'n ailymweld i raddau helaeth. Fodd bynnag, roedd cyfran y grwpiau economaidd-gymdeithasol is sy'n ymweld wedi ehangu i oddeutu 30 y cant o'r cyfanswm, "a gellir priodoli hyn i fynediad am ddim".[15]

**21.** Yn ôl Nia Elias, Cyfarwyddwr Cysylltiadau a Nawdd yn Amgueddfa Cymru, "pan wnaethom ni fynd yn ddi-dâl fe wnaeth y niferoedd ddyblu".[16]

**22.** Gwnaed y pwynt nad yw mynediad am ddim, ynddo'i hun, yn arwain at bresenoldeb economaidd-gymdeithasol cyfartal mewn safleoedd amgueddfeydd, gan Dr Mark O'Neil, cyn bennaeth Amgueddfeydd Glasgow:

> *"The primary predictor of museum visiting isn't income, and charging isn't the most significant barrier. The greatest predictor of museum visiting is the prior level of education. People with poor or no educational qualifications usually have had a bad experience of school and of learning, they see museums as schooly places that are not for them."*[17]

[14] Centre for Public Impact: Universal Free Admission to the UK's National Museums – Mai 2016
[15] Dr Simon Thurley CBE ar ran Llywodraeth Cymru: Adolygiad o Amgueddfa Cymru - Mehefin 2017, paragraff 16.7
[16] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 6 Mehefin 2024, paragraff 40
[17] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 6 Mehefin 2024, paragraff 114

**23.** Amlinellodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i fynediad am ddim i safleoedd Amgueddfa Cymru mewn llythyr a anfonwyd atom dyddiedig 16 Ionawr 2025:

> "Cafodd hyn ei gyflwyno cyn gweddill y DU a, diolch i gyllid Llywodraeth Cymru, mae ymwelwyr yn parhau i fynd i mewn i bob un o'r saith safle yn Amgueddfa Cymru am ddim. Adlewyrchir ein hymrwymiad parhaus i'r *polisi hwn yn ein Blaenoriaethau Diwylliant drafft, sy'n cynnwys yr uchelgais 'Mae diwylliant yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn amrywiol'. Rwyf hefyd wedi pwysleisio i Amgueddfa Cymru pa mor bwysig yw sicrhau bod y casgliad cenedlaethol yn parhau i fod yn hygyrch i bawb."* [18]

**24.** Argymhellodd Adolygiad Teilwredig Llywodraeth Cymru o Amgueddfa Cymru yn 2023 ("yr Adolygiad Teilwredig"):

> *"y dylai mynediad i AC [Amgueddfa Cymru] barhau i fod am ddim, ond dylai LC [Llywodraeth Cymru] gynghori ar y ffiniau ar gyfer cynhyrchu incwm o'r ystad a'r casgliadau gyda'r nod o alluogi AC i gynhyrchu mwy o incwm yn ychwanegol at gymorth grant."*[19]

**25.** Mewn llythyr atom ym mis Tachwedd 2024, eglurodd Amgueddfa Cymru:

> *" We don't require any specific permission from the Welsh Government to run temporary exhibitions and appreciate the autonomy to make decisions on charging models ourselves as per our Royal Charter."*[20]

## Ein barn ni

**26.** Mae polisi Llywodraeth Cymru o fynediad am ddim i amgueddfeydd cenedlaethol wedi gweithio i gynyddu mynediad. Rydym yn credu ei bod yn egwyddor ganolog werthfawr na ddylai pobl dalu i fwynhau ein casgliadau cenedlaethol. Mae'r casgliadau cenedlaethol yn perthyn i'r genedl, gydag

---

[18] Llythyr gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 16 Ionawr 2025
[19] Llywodraeth Cymru: Amgueddfa Genedlaethol Cymru: adolygiad teilwredig – Gorffennaf 2023
[20] Llythyr gan Amgueddfa Cymru at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 21 Tachwedd 2024

Amgueddfa Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol a Llywodraeth Cymru fel eu harianwyr, yn gwasanaethu fel ceidwaid dros dro.

**27.** Mae bod yn geidwad hanes ein cenedl yn gyfrifoldeb i'w ysgwyddo. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb i ariannu ein sefydliadau diwylliant cenedlaethol yn ddigonol fel y gallant fforddio darparu mynediad am ddim.

**28.** Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyflawni'r cyfrifoldeb hwn. Dros ddegawd, mae Llywodraeth Cymru wedi torri cyllid cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau diwylliannol yng Nghymru i'r graddau ei bod bellach ymhlith yr isaf yn Ewrop. Mae'n dditiad o'r lefelau ariannu hanesyddol isel hyn bod Dirprwy Weinidog blaenorol y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth wedi dweud wrth y Pwyllgor hwn fod codi tâl am fynediad yn opsiwn 'dan ystyriaeth'.

**29.** Er bod Cyllideb Derfynol 2025-26 Llywodraeth Cymru yn cynnwys cynnydd i'w groesawu mewn cyllid ar gyfer diwylliant, nid yw hyn yn cuddio'r gostyngiadau sylweddol mewn termau real mewn cyllid y mae'r sector wedi'i ddioddef dros y degawd diwethaf. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ariannu diwylliant mewn ffordd sy'n cydnabod ei werth cynhenid i'r genedl eto.

**30.** Nid yw mynediad am ddim i'r casgliadau cenedlaethol, ar ei ben ei hun, yn ddigon i sicrhau mynediad cyfartal. Clywsom mai y rhagfynegydd mwyaf o ymweld ag amgueddfeydd yw'r lefel flaenorol o addysg, yn hytrach nag incwm. Mae'r dystiolaeth hon yn tynnu sylw at werth y gwaith ymgysylltu a wneir gan sefydliadau fel Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol. Mae'r gwaith gwerthfawr hwn hefyd yn gofyn am gyllid digonol gan Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod polisi Llywodraeth Cymru o fynediad am ddim i'r amgueddfeydd cenedlaethol yn cael ei gadw. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid digonol i Amgueddfa Cymru i hwyluso hyn.

# 3. Gwerth arddangosfeydd y codir tâl amdanynt

**31.** Esboniodd tystion fod yr incwm a godwyd ganddynt o arddangosfeydd y codir tâl amdanynt, yng ngeiriau Nia Elias yn Amgueddfa Cymru, yn 'gymharol gymedrol'.[21] Fodd bynnag, esboniodd fod gan yr arddangosfeydd hyn fanteision ychwanegol, gan gynnwys gwella amrywiaeth y ddarpariaeth, ac felly amrywiaeth cynulleidfaoedd, yn ogystal â chynyddu gwariant eilaidd, er enghraifft mewn siopau a chaffis.

**32.** Er nad yw'r Llyfrgell Genedlaethol yn codi tâl am arddangosfeydd dros dro, nac yn bwriadu gwneud hynny, esboniodd Prif Weithredwr y Llyfrgell Genedlaethol, Rhodri Llwyd Morgan i ni fanteision cynnal arddangosfeydd dros dro ar nifer yr ymwelwyr ac incwm masnachol:

> *"Felly, o'i gymharu â mis Mai llynedd, dŷn ni wedi nid dyblu ond pedryblu ymwelwyr i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn ystod y cyfnod, yn ystod y mis lle mae'r arddangosfa wedi bod ar agor. [...] O'i gymharu â'r un cyfnod llynedd, mae 51 y cant o gynnydd wedi bod yn incwm y caffi a 67 y cant o gynnydd yn incwm y siop, ac mae hynny oherwydd diddordeb mawr yr arddangosfa arbennig yma."*[22]

**33.** Dywedodd Dr Mark O'Neil wrthym ei fod wedi profi rhai llwyddiannau mawr gyda chodi tâl arddangosfeydd dros dro teithiol, ond yn yr un modd, trychinebau drud iawn.[23] Dywedodd nad oes unrhyw arddangosfa dros dro a gynhelir ganddynt erioed wedi gwneud elw os ydych chi'n cynnwys amser staff.[24]

**34.** Nododd Adroddiad Thurley mai dim ond ychydig iawn o arddangosfeydd dros dro sy'n gwneud elw llwyr. Roedd "Trysorau: Anturiaethau Archaeolegol" yn arddangosfa y codwyd tâl amdani a gynhaliwyd gan Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn 2016. Ar ôl i'r incwm (£116,000, gan gynnwys £45,000 o grant gan Lywodraeth Cymru) gael ei dynnu o gostau gweithredu (£301,000), fe gostiodd £185,000 i Amgueddfa Cymru ei chynnal. Roedd hyn yn llai na'r gost a ragwelwyd,

[21] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 6 Mehefin 2024, paragraff 75
[22] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 6 Mehefin 2024, paragraff 18
[23] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 6 Mehefin 2024, paragraff 28
[24] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 6 Mehefin 2024, paragraff 71

gan ddangos mai bwriad Amgueddfa Cymru oedd sybsideiddio cost yr arddangosfa gyda thâl mynediad, a pheidio â throi elw. [25]

**35.** Yn 2024-25, cynhaliodd Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd arddangosfa, Drych ar yr Hunlun, yn seiliedig ar hunanbortread Van Gogh ar fenthyg ar sail "talu beth allwch chi", gyda thâl lleiaf o £1, ac arddangosfa am streic y glowyr, Streic! 84-85 Strike!, yn seiliedig ar yr un strwythur prisio.[26]

### Ein barn ni

**36.** Mae'n ymddangos nad yw'r brif fantais o gynnal arddangosfeydd dros dro y codir tâl amdanynt yn un fasnachol. Roedd y tystion yn glir eu bod yn ffrydiau incwm "cymedrol" a'u bod yr un mor debygol o golli arian ag y maent o gynhyrchu elw.

**37.** Rydym yn nodi canfyddiad Adroddiad Thurley yn 2017, mai dim ond ychydig iawn o arddangosfeydd dros dro sy'n gwneud elw llwyr. Yn dilyn y gostyngiad parhaus yn nifer yr ymwelwyr a achoswyd gan Covid, ac effaith yr argyfwng costau byw ar gyllid cartrefi, mae'n ymddangos yn annhebygol bod yr arsylwad hwn wedi newid yn y blynyddoedd dilynol.

**38.** Yn hytrach na bod yn rhagolygon masnachol yn bennaf, mae arddangosfeydd dros dro y codir tâl amdanynt yn ffyrdd o sybsideiddio cynnig amrywiol a gwahanol. Mae hyn yn gwella'r profiad i ymwelwyr presennol, yn denu ymwelwyr newydd, ac yn cynnal enw da rhyngwladol ein sefydliadau cenedlaethol.

**39.** Mae ein sefydliadau cenedlaethol yn dangos Cymru i'r byd, ac yn dod â'r byd i Gymru ar yr un pryd. Mae arddangosfeydd dros dro yn helpu gyda'r ddwy swyddogaeth hyn. Mae ymwelwyr rhyngwladol yn dysgu am ein hanes drwy arddangosfeydd deinamig, fel "Streic! 84-85 Strike!" Amgueddfa Cymru. Gall pobl yng Nghymru hefyd archwilio diwylliannau eraill drwy arddangosfeydd dros dro, fel "Drych ar yr Hunlun" Amgueddfa Cymru. Felly, mae rhestr o ansawdd uchel o arddangosfeydd dros dro yn ein hamgueddfeydd a'n orielau yn gwella statws rhyngwladol ein sefydliadau, a Chymru ei hun.

**40.** Yn hytrach na bod arddangosfeydd dros dro yn ateb i brinder cyllid cyhoeddus, mae diffyg arddangosfeydd dros dro yn ganlyniad iddo. Mae

[25] Dr Simon Thurley CBE ar ran Llywodraeth Cymru: Adolygiad o Amgueddfa Cymru - Mehefin 2017, paragraff 16.14
[26] Llythyr gan Amgueddfa Cymru at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 21 Tachwedd 2024

arddangosfeydd yn costio arian i'w cynnal. Yn fwy nodweddiadol, bydd incwm a godir o docynnau yn sybsideiddio’r gost hon yn hytrach na chynhyrchu elw. Felly, dylai Llywodraeth Cymru fod yn wyliadwrus rhag cyfeirio at arddangosfeydd fel ateb i’r problemau a achosir yn sgil tangyllido Amgueddfa Cymru gan Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell na ddylai unrhyw incwm o arddangosfeydd ddisodli'r angen i Lywodraeth Cymru ariannu Amgueddfa Cymru yn ddigonol.

# 4. Codi tâl am deithiau o dan y ddaear yn Big Pit

**41.** Mae Big Pit ym Mlaenafon, Torfaen, yn un o'r saith amgueddfa sy'n ffurfio Amgueddfa Cymru. Mae Big Pit wedi'i leoli ar hen bwll glo gweithredol a oedd yn gweithredu o 1860 tan ei gau yn 1980. Ym 1983, agorwyd Big Pit i'r cyhoedd fel amgueddfa, gan alluogi ymwelwyr i brofi bywyd glöwr. Yn 2005, enillodd Big Pit wobr fawreddog Amgueddfa'r Flwyddyn.

**42.** Mae'r safle'n cynnig teithiau o dan y ddaear dan arweiniad cyn-lowyr a phrentisiaid, gan ganiatáu i ymwelwyr archwilio siafftiau gwreiddiol y mwyngloddiau a gweld y peiriannau a'r offer a ddefnyddir i echdynnu glo. Uwchben y ddaear, mae'r amgueddfa'n cynnwys arddangosfeydd ar hanes mwyngloddio, treftadaeth gymdeithasol a diwydiannol, ac effaith mwyngloddio glo ar y gymuned a'r amgylchedd lleol.

**43.** Cytunodd yr Adolygiad Teilwredig yn 2023 y dylai mynediad i'r amgueddfeydd cenedlaethol barhau i fod yn rhad ac am ddim, ond daeth i'r casgliad y byddai archwilio opsiynau i gynyddu incwm masnachol ac elusennol yn fuddiol. Roedd opsiynau o'r fath yn cynnwys:

> *"Y gallu i godi tâl am arddangosfeydd arbennig a'r elfennau sy'n ymwneud â "phrofiad ymwelwyr" megis mynd o dan y ddaear yn Big Pit. Rydym yn canmol yr arfer yn yr Amgueddfa Lofaol Genedlaethol yn Wakefield, lle y gofynnir i ymwelwyr sy'n mynd o dan y ddaear dalu ernes o £5 am docyn. Ni fydd yr ernes yn cael ei hadhawlio gan fwy na 90% o ymwelwyr. Mae cynllun "JobaKnock" yn Big Pit sy'n codi £5 i drefnu amser ar gyfer tocyn tanddaearol wedi denu niferoedd da. Mae cynlluniau o'r fath hefyd yn ei gwneud yn bosibl i ymweliadau gael eu cynllunio er mwyn osgoi siom ac yn rhoi data ar ymwelwyr i AC er mwyn iddi ddatblygu ei gwasanaethau."*[27]

**44.** Rhwng 1 Hydref a 3 Tachwedd 2024, treialodd Amgueddfa Cymru godi tâl am deithiau o dan y ddaear yn Big Pit. Roedd rhaid prynu tocynnau ar gyfer taith o dan y ddaear ymlaen llaw gyda thocyn Job-A-Mas £8 slot amseredig neu docyn £5 a oedd ar gael ar ddiwrnod yr ymweliad, nad oedd yn gwarantu slot amser.

---

[27] Llywodraeth Cymru: Amgueddfa Genedlaethol Cymru: adolygiad teilwredig – Gorffennaf 2023, paragraff 13.82

**45.** Trafododd Prif Weithredwr Amgueddfa Cymru, Jane Richardson, y treial codi tâl gyda'r Pwyllgor ar 11 Rhagfyr 2024. Dywedodd:

> *"The feedback on the underground tour charging at Big Pit is very positive. Ninety-eight per cent of the people who responded, and there were over 600 people who responded, said they would be happy to pay that or pay more."*[28]

**46.** Tynnodd sylw hefyd at y gwahaniaeth rhwng codi tâl am deithiau o dan y ddaear a mynediad am ddim i'r arddangosfeydd parhaol yn Big Pit:

> *"In terms of the public purse, there is a difference between the four walls of a museum and allowing entrance into it so that you can see a collection, and when you have to maintain the machinery of a lift and the mine workings, et cetera. That gear goes beyond the traditional free entry model for a museum. It is a very labour-intensive process and offer that you're putting on."*[29]

**47.** Eglurodd fod Amgueddfa Cymru yn canfod bod pobl yn croesawu'r cyfle i allu gwneud cyfraniad, a'i bod wedi'i 'syfrdanu' gan ba mor gadarnhaol oedd y gwerthusiad o'r treial.

**48.** Ysgrifennodd Amgueddfa Cymru atom ym mis Ebrill 2025, gan egluro bod y teithiau tywysedig gan lowyr yn llafurus iawn.

> *"To stay open to the public, the site must meet stringent safety regulations, including mine safety, visitor safety, fire safety, public liability, and machinery safety. Each underground tour requires six staff members—winder, fitter, banksman, electrician, deputy, and pitman—and it takes six months to train a mine guide. Whether they are a former miner or newly qualified, each guide offers a personalised tour, sharing histories, answering questions and providing a bespoke experience not found at other museums. All of this comes at a cost."*[30]

---

[28] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 11 Rhagfyr 2024, paragraff 65
[29] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 11 Rhagfyr 2024, tudalen 74
[30] Llythyr gan Amgueddfa Cymru at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 15 Ebrill 2025

**49.** Dywedodd Cadeirydd Amgueddfa Cymru, Kate Eden, wrthym ym mis Rhagfyr 2024 fod y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol ("y Gweinidog") yn eithaf clir bod y penderfyniad ynghylch a ddylid codi tâl am deithiau o dan y ddaear yn benderfyniad i gorff llywodraethu Amgueddfa Cymru.[31]

**50.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog am ei farn ar godi tâl am deithiau o dan y ddaear yn Big Pit yn ystod sesiwn graffu ym mis Tachwedd 2024. Dywedodd y canlynol:

> *"I'm not suggesting that's the right way or the wrong way to do things. What I would be concerned about is if that did have an impact on access to culture. I'd be keen to understand if that is the case."*[32]

**51.** Yn dilyn hynny, gwnaethom ofyn am eglurhad o bolisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyflwyno ffioedd am brofiadau a guradwyd fel sgyrsiau, teithiau ac arddangosfeydd yn Amgueddfa Cymru. Esboniodd y Gweinidog:

> *"Yn unol ag egwyddor hyd braich, mater i Amgueddfa Cymru yw gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylid gofyn am rodd neu godi tâl am brofiadau a guradwyd o'r fath."*

**52.** Aeth ymlaen i ddweud:

> *"Bydd yr holl ddata a gesglir yn helpu Amgueddfa Cymru i werthuso sut mae unrhyw newid i fodelau codi tâl yn cydymffurfio â'n polisi ar fynediad am ddim i'r casgliadau parhaol a'i ethos gwaelodol."*[33]

**53.** O fis Ebrill 2025 i fis Gorffennaf 2026, rhaid prynu tocynnau ar gyfer y daith o dan y ddaear yn Big Pit gyda naill ai tocyn Job-A-Mas £8 gyda slot amser i bob person, y gellir ei archebu ymlaen llaw cyn eich ymweliad, neu docyn consesiwn £5 neu £3 sydd ar gael i'w brynu ar ddiwrnod yr ymweliad. Nid yw tocynnau a brynir ar ddiwrnod y pryniant yn gwarantu slot amser ac maent yn gyfyngedig o ran argaeledd.

---

[31] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 11 Rhagfyr 2024, paragraff 94
[32] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 13 Tachwedd 2024, paragraff 65
[33] Llythyr gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 16 Ionawr 2025

**54.** Mae Amgueddfa Cymru wedi mabwysiadu’r consesiynau canlynol:

- Consesiynau agored a fydd yn caniatáu i unigolion a theuluoedd ddewis y tâl is o £3 eu hunain heb unrhyw ofyniad am dystiolaeth a heb unrhyw gwestiynau.
- Diwrnodau mynediad am ddim i bawb ar gyfer y gymuned gyda digwyddiadau ychwanegol.

**55.** Ym mis Ebrill 2025, rhoddodd Amgueddfa Cymru ragor o wybodaeth am ei threialon codi tâl yn Big Pit.[34] Dywedodd, ers gweithredu'r treialon, codi tâl mae wedi darganfod:

- Bod 98 y cant o ymwelwyr yn Big Pit yn fodlon â'r swm a dalwyd ganddynt.
- Nododd 40 y cant y byddent wedi bod yn fodlon talu mwy.
- Cyflawnodd 94/100 y Sgôr Hyrwyddwr Net rhagorol hwn o arolwg o 575 o ymwelwyr.
- Cymerodd 86 y cant o ymwelwyr â'r safle ran mewn teithiau o dan y ddaear, sy’n gyson ag 84 y cant yn ystod yr un cyfnod yn 2023.
- Fel o'r blaen, cafodd y rhan fwyaf o docynnau o dan y ddaear ‘Job-a-mas’ slot amser penodol eu prynu gan ymwelwyr newydd â’r safle, yn hytrach nag ymwelwyr a oedd yn dychwelyd.

**56.** Eglurodd fel a ganlyn:

> *“Based on data from the charging trials, satisfaction levels, visitor numbers, and conversion rates [need to explain what this means] have all remained consistent. This suggests that the introduction of charging has not significantly affected audience diversity. This is especially relevant for local communities, as most of our visitors on the underground tours are first-time or one-off visitors.”*

**57.** Gwnaethom ofyn i Amgueddfa Cymru, pe na bai’n cael yr incwm a gynhyrchir o godi tâl am deithiau o dan y ddaear, pa ddulliau lliniaru fyddai angen

---

[34] Llythyr gan Amgueddfa Cymru at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 15 Ebrill 2025

eu hystyried er mwyn i weithrediadau barhau ar y lefelau incwm presennol. Dywedodd:

> *"Amgueddfa Cymru is already optimising existing revenue streams such as retail, catering, car parking, corporate hire and filming rights, in addition to funding streams such as donations and grants. There are very few other readily available revenue streams which would allow operations to continue at current income levels."*

## Ein barn ni

**58.** Nid ydym yn credu y dylai Amgueddfa Cymru godi tâl am deithiau dan y ddaear yn Big Pit. Credwn fod y teithiau dan y ddaear yn rhan unigryw ac annatod o Big Pit, sy'n rhoi cipolwg amhrisiadwy ar rôl ganolog cloddio glo yn hanes Cymru. Ni ddylai pobl orfod talu i gael y mewnwelediad hwn i'w gorffennol eu hunain.

**59.** Credwn y dylai'r egwyddor o fynediad am ddim i safleoedd Amgueddfa Cymru ymestyn i'r teithiau o dan y ddaear yn Big Pit. Rydym wedi cael trafferth cael eglurder gan y Gweinidog ynghylch a yw'n cytuno â'r datganiad hwn. Dywedodd wrthym y "bydd yr holl ddata a gesglir yn helpu Amgueddfa Cymru i werthuso sut mae unrhyw newid i fodelau codi tâl yn cydymffurfio â'n polisi ar fynediad am ddim i'r casgliadau parhaol a'i ethos gwaelodol." Rydym yn credu bod hyn yn fater o egwyddor, ac nid yn fater o ddata.

**60.** Nid yw polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru ar fynediad am ddim yn cynnwys cafeatau y gellir atal y polisi hwn os yw data yn cefnogi ei atal. Yn unol â hynny, credwn y dylai teithiau o dan y ddaear yn Big Pit barhau i fod yn rhad ac am ddim fel mater o egwyddor, ac na ddylid rhoi'r gorau i fynediad am ddim yn seiliedig ar y data a gasglwyd o dreialon codi tâl.

**61.** Agorodd tafarn y Vulcan yn Amgueddfa Hanes Genedlaethol Sain Ffagan yn 2024 ar ôl iddi gael ei symud o'i safle blaenorol yng Nghaerdydd. Agorodd fel tafarn weithredol, lle gall ymwelwyr brynu diodydd, neu fynd o amgylch yr adeilad am ddim. Credwn fod y dull hwn yn enghraifft o sut y dylai Amgueddfa Cymru fynd ati i gynhyrchu refeniw: ni ddylai ymwelwyr dalu am fynediad. Rydym yn ystyried bod gweithrediadau o dan y ddaear Big Pit yn elfennau hanfodol o'r casgliad cenedlaethol ac yn ased cenedlaethol y dylai pawb fod yn gallu cael mynediad ato am ddim. Mae natur yr ased hwn yn golygu bod yn rhaid i

ymwelwyr gael eu tywys i gael mynediad. Nid yw hwn yn dâl ychwanegol dewisol i'w godi amdano.

**62.** Rydym yn gwerthfawrogi ei bod yn ddrud i Amgueddfa Cymru ddarparu mynediad i'r gweithfeydd o dan y ddaear yn Big Pit. Fodd bynnag, credwn fod hon yn ddadl i Lywodraeth Cymru ddarparu lefel ddigonol o gyllid, nid i Amgueddfa Cymru godi tâl am fynediad. Rydym yn cydnabod y rheidrwydd sy'n wynebu Amgueddfa Cymru i godi incwm ychwanegol, o ystyried blynyddoedd o dan-ariannu gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn pryderu bod Amgueddfa Cymru yn teimlo ei bod yn rhaid iddi gyflwyno taliadau am fynediad oherwydd pwysau cyllidebol ac yn ailadrodd ein galwad i Lywodraeth Cymru gynyddu ei chyllid ar gyfer diwylliant, gan gynnwys ar gyfer Amgueddfa Cymru.

**63.** Rydym yn nodi'r sgoriau boddhad uchel iawn a gasglwyd ar ôl y treial codi tâl blaenorol yn Big Pit (roedd 98 y cant o’r ymwelwyr yn Big Pit yn fodlon â'r swm a dalwyd, a nododd 40 y cant y byddent wedi bod yn fodlon talu mwy). Mae'r sgôr hon yn dyst i waith caled a sgiliau'r tywyswyr teithiau a'r staff sy'n cynnal a chadw'r pwll glo. Ond, nid ydym yn credu bod hyn yn cyfiawnhau cyflwyno codi tâl. Byddai'n ymddangos yn synhwyrol, ac o fewn ein dehongliad o'r egwyddor mynediad am ddim, i Amgueddfa Cymru geisio cynyddu rhoddion gan y rhai sy'n mynd ar y daith, o ystyried y parodrwydd hwn i dalu.

**Casgliad 1.** Dylai Amgueddfa Cymru geisio cynyddu rhoddion gwirfoddol gan yr ymwelwyr hynny sy’n mynd ar y daith o dan y ddaear yn Big Pit er mwyn cynhyrchu'r incwm mwyaf posibl.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn glir bod yr egwyddor o fynediad am ddim i safleoedd yr amgueddfeydd cenedlaethol yn ymestyn i'r daith o dan y ddaear yn Big Pit.

# 5. Effaith cynnal arddangosfeydd dros dro

## Costau

**64.** Fel yr eglurwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, nid yw arddangosfeydd dros dro yn gwarantu llwyddiannau masnachol. Yn fwy nodweddiadol, mae incwm tocynnau yn sybsideiddio'r arddangosfa yn hytrach na chynhyrchu elw. Esboniodd tystion y costau sy'n gysylltiedig â chynnal arddangosfeydd dros dro.

**65.** Yn dilyn Cyllideb Derfynol 2024-25, pan dorrodd Llywodraeth Cymru gyllid refeniw ar gyfer diwylliant a chwaraeon 7.7 y cant, dywedodd Amgueddfa Cymru y canlynol:

> *"Temporary exhibitions are expensive to host, which restricts what we can produce. [...] The recent budget cuts will mean that Amgueddfa Cymru will produce fewer exhibitions in the future to protect their high quality with fewer resources available."*[35]

**66.** Cododd Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol y mater o yswiriant ar gyfer gwrthrychau ar fenthyg mewn arddangosfeydd dros dro. Dywedodd:

> *"Non-national museums in the UK can access the Government Indemnity Scheme which indemnifies object loans when conditions are met, giving institutions the confidence to agree loans of valuable objects; however, national museums are not eligible for this scheme and are expected to cover any damages or losses themselves."*[36]

**67.** Pwysleisiodd y Llyfrgell Genedlaethol bwysigrwydd Llywodraeth Cymru yn darparu cefnogaeth ar gyfer cynnal arddangosfeydd dros dro:

> *"Yn benodol mae'n allweddol ar gyfer hwyluso a chefnogi, ac mewn rhai amgylchiadau cefnogi'n ariannol, y trefniadau*

---

[35] Llythyr gan Amgueddfa Cymru at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 9 Gorffennaf 2024

[36] Llythyr gan Gymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 28 Mehefin 2024

*hanfodol mewn perthynas â benthyciadau arwyddocaol iawn ac/neu o werth uchel."*[37]

## Mynediad at ddiwylliant

**68.** Esboniodd tystion sut maen nhw'n cydbwyso cynhwysiant â chynyddu incwm wrth godi tâl am arddangosfeydd. Esboniodd Amgueddfa Cymru sut yr oedd yn teimlo nad oedd y ddau nod hyn o reidrwydd yn gwrthdaro, ond y gallent ategu ei gilydd:

> *"In fact, the exhibition [Art of the Selfie] contains artworks from artists from a broad range of different demographics which are accessible to the public for as little as £1 (recommended £5), which means we can achieve both income generation and audience engagement objectives."*[38]

**69.** Esboniodd Dr O'Neil nad oedd y berthynas rhwng codi tâl am fynediad a chynhwysiant mor uniongyrchol wrthwynebol ag y gallai ymddangos ar yr olwg gyntaf:

> *"Sociologically, the primary predictor of museum visiting isn't income, and charging isn't the most significant barrier. The greatest predictor of museum visiting is the prior level of education. People with poor or no educational qualifications usually have had a bad experience of school and of learning, they see museums as schooly places that are not for them. The kind of programmes that Nia has been talking about, in-depth work with communities over years, is what is takes to break down those barriers. [...] Those psychosocial barriers are much more important, I think, than charging for a particular exhibition."*[39]

### Ein barn ni

**70.** Fel yr eglurwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, nid yw arddangosfeydd dros dro yn gwarantu llwyddiannau masnachol. Mae hyn yn golygu, yn hytrach na

---

[37] Llythyr gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 4 Gorffennaf 2024
[38] Llythyr gan Amgueddfa Cymru at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 9 Gorffennaf 2024
[39] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 6 Mehefin 2024, paragraff 117

bod yn ateb i brinder cyllid cyhoeddus, fod rhestr amrywiol ac amrywiol o arddangosfeydd dros dro yn rheswm dros gynyddu cyllid cyhoeddus.

**71.** Mae lefelau isel parhaus o gyllid cyhoeddus ar gyfer y sector diwylliant yn golygu na fydd amgueddfeydd ac orielau yn gallu cynnal cymaint o arddangosfeydd. Bydd hyn yn cael effaith andwyol ar amrywiaeth cynulleidfaoedd, profiadau ymwelwyr, ac enw da rhyngwladol y sefydliadau hyn.

**72.** Gan hynny, dylai Llywodraeth Cymru edrych i weld sut gall helpu sefydliadau i gynnal arddangosfeydd dros dro. Gallai'r cymorth hwn fod ar ffurf cyllid penodol, fel y mae'n ei ddarparu ar gyfer digwyddiadau eraill yng Nghymru, neu gymorth gydag yswiriant. Y gefnogaeth orau yw lefelau digonol o gyllid cymorth grant, y mae wedi methu â'i ddarparu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gall helpu sefydliadau i gynnal arddangosfeydd dros dro.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru egluro sut mae telerau Cynllun Indemniad y Llywodraeth yn ymwneud â sefydliadau cenedlaethol yn benthyca eitemau ar gyfer arddangosfeydd dros dro.

**73.** Mae risg y bydd codi tâl am arddangosfeydd yn cynyddu'r rhwystrau i'r rhai ar incwm isel rhag cael mynediad at ddiwylliant. Hyd yn oed gyda chonsesiynau addas yn eu lle, mae risg y bydd y weithred o godi tâl yn cynyddu rhwystrau seicolegol i fynediad. Felly, rhaid i sefydliadau sicrhau, nid yn unig bod cynlluniau consesiwn addas ar waith, ond hefyd eu bod yn cael eu hysbysebu'n dda. Mae cynlluniau talu beth allwch chi, fel y'u defnyddiwyd yn ddiweddar gan Amgueddfa Cymru, yn ymddangos yn ffordd dda o godi incwm o docynnau heb stigmateiddio'r rhai sy'n gallu talu llai.

**74.** Rhaid i sefydliadau cenedlaethol sicrhau nad yw codi tâl am arddangosfeydd yn creu profiad dwy haen, lle mae'r rhai sy'n gallu talu mwy, yn cael mwy. Y ffordd orau o warchod yn erbyn hyn yw'r polisi o fynediad am ddim, gyda pharamedrau clir, ac wedi'i amddiffyn yn gadarn gan y Llywodraeth Cymru a'r sefydliadau eu hunain. Dyma pam rydym wedi galw mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn i'r teithiau o dan y ddaear yn Big Pit aros yn rhad ac am ddim. Rydym o'r farn y dylai hyn fod yn rhan o'r cynnig craidd, nid ychwanegiad dewisol y codir tâl amdano.

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen y Pwyllgor ar y we.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **06 Mehefin 2024** | **Nia Elias, Cyfarwyddwr Cysylltiadau a Chyllido,** Amgueddfa Cymru<br>**Rhodri Llwyd Morgan - Prif Swyddog Gweithredol,** Llyfrgell Genedlaethol Cymru<br>**Lisa Ollerhead - Cyfarwyddwr,** Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol<br>**Dr Mark O'Neill – Cyn-bennaeth,** Amgueddfeydd Glasgow |
| **13 Tachwedd 2024** | **Jack Sargeant AS - Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol,** Llywodraeth Cymru<br>**Paul Kindred – Dirprwy Gyfarwyddwr Diwylliant,** Llywodraeth Cymru<br>**Ruth Meadows - Cyfarwyddwr, Addysg Drydyddol,** Llywodraeth Cymru<br>**Steffan Roberts - Dirprwy Gyfarwyddwr Celfyddydau a Chwaraeon,** Llywodraeth Cymru |
| **11 Rhagfyr 2024** | **Jane Richardson - Prif Weithredwr,** Amgueddfa Cymru<br>**Kate Eden – Cadeirydd,** Amgueddfa Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o’r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl wybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar wefan y Pwyllgor.

## Gwybodaeth ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Llythyr gan Gymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol | **28 Mehefin 2024** |
| Llythyr gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol | **04 Gorffennaf 2024** |
| Llythyr gan Amgueddfa Cymru at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol | **09 Gorffennaf 2024** |
| Llythyr gan Amgueddfa Cymru at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol | **21 Tachwedd 2024** |
| Llythyr gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol | **16 Ionawr 2025** |
| Llythyr gan Amgueddfa Cymru at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol | **15 Ebrill 2025** |